**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Mai l2026, yn Neuadd Dihewyd am 7.30pm.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cyng. Lynford Thomas (Cadeirydd), Haf Hughes, Dan Evans, Euros Davies, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Gerwyn Owen, Wenyd Lloyd Lewis.

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Melinda Williams, Hywel Ifans a'r Cyng. Sir Ceris Jones

2. **PERSONOL -** Dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** - Ni ddatglewyd unrhyw fuddion personol

4. **CADARNHAU COFNODION 10/03/26**
Nodwyd nad oedd enw llawn y Cyng. Euros Davies wedi nodi fel cynigiydd. Wedi derbyn y newid cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
**11. Cyfarfod Un Llais Cymru.** Yn dilyn dryswch y dyddiad mis diwethaf, cadarnhawyd bod y cyfarfod wedi ei gynnal ar y 9fed o Ebrill a nodwyd nifer o'r pynciau a drafodwyd. Cynhelir y cyfarfod nesa ar y 6ed o Orffennaf

   **14a (Chwefror) Arwydd Pentre Cribyn.** Mae'r arwydd wedi cael ei osod.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Yn absendoldeb y Cyng**.** Ceris Jones ni dderbyniwyd adroddiad

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU** - ni dderbyniwyd aroddiad mis hwn.

8. **CYLLID**
   a. Tal y Clerc Ebrill '26 £228.73
   b. Costau'r Clerc (Stampiau, Inc, Papur Printio) £119.10
   c. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol o 10/003/26 – 09/04/26 £**5,75**
   d. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd o 10/03/26 – 09/04/26 £**4.25**
   e. Tâl yr Archwilydd Mewnol £150.00
   f. Tâl Archwilio Cymru ffioedd 2022-23 £200.00
   g. Ad-daliad o £28 72 i'r Cyng. Melinda Williams am flodau i focs Ystrad.
   h. Taliad i Rhian Swithenbank am flodau i ddau focs Dihewyd £58.95
   i. Taliad o £750.59 i Zurich Insurance.
   j. Taliad o £44.00 i Un Llais Cymru (Cwrs 28/4/2026)
   k. Ffurflen 126 TAW am 2025-26 wedi ei chwblhau a disgwylir ad-daliad o £100.40.

9. **CYNLLUNIO – Dim i'w drafod.**

10. **ADRODDIAD HYFFORDDIANT CYLLID A LLYWODRAETHIANT 28/4/2026**
**Daeth y cyfle hwn yn dilyn cyfarfod mis Ebrill a chytunodd y Cadeirydd y** byddai'n ddefnyddiol i'r Clerc i'w fynychu **a chafodd y ffi o £44 ei chymeradwyo ganddi** ar 21in Ebrill, 2026. Nododd y Clerc bod yr hyfforddiant yn addysgiadol iawn ac wedi nodi'n glir dyletswyddau statudol y Cyngor a'i ddyletswyddau eraill. Bydd y gwaith dilynol yn cynnwys cwblhau'r ffurflen Cyllid a Llywodraethiant,

11. **ADRODDIAD HYFFORDDIANT AUDIT A DIWEDD BLWYDDYN ARIANNOL 5/5/2026**
Cwrs am ddim oedd hwn a fynychwyd gan y Clerc. Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i gwblhau'r broses Audit yn gywir gan gynnwys anghenion 2025-26.

12. **GOFALWR BUS SHELTER DIHEWYD**
Mae Mr. Donald Barron wedi cytuno i gymryd gofal dros lanhau'r Bus Shelter. Mi fydd yn derbyn honorariwm yn flynyddol yn seiliedig ar daliad olaf Mr. Les Verdin, sef £110.74.

13. **BOCSUS BLODAU**
Nododd y Cyng. Alan Henson bod merch ifanc lleol, Madi Potter, yn mynd i gymryd gofal dros y bocs blodau wrth y Mynach. Mae'r Cyng. Melinda Williams wedi prynu a phlannu blodau bocs Ystrad. Cytunodd y Cyng. Haf Hughes i brynu a phlannu blodau bocsus Felinfach x 2.

14. **GOHEBIAETH**
    i. Derbyniwyd llythyr gan Alzheimer's Society yn gofyn am roi posteri yn ein bocsus am Wythnos Ymwybyddiaeth Amzheimers.

15. **UNRHYW FATER ARALL**
    a. Nododd y Cyng. Dan Evans bod y goleuadau ar yr hewl wrth y ffatrioedd yn hirach nag sydd angen**. Penderfynwyd** ysgrifennu at y Sir yn gofyn pe bai modd eu newid i system sensor.
    b. Codwyd pryder unwaith eto gan y Cyng. Alan Henson am gyflwr yr hewl wrth Pandy a Tan-y-Bryn, Cribyn. Mae'r hewl yn erydu a'r cones a'r wedi cael eu symud. Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd yn gofyn am gyfarfod brys ar y safle.
    c. Penderfynwyd gwahodd aelodau o Gyngor Cymuned Llanwnnen i'n cyfarfod nesaf ar 9fed Mehefin. Lleoliad i'w gadarnhau.
    d. Penderfynwyd trefnu Cinio'r Cadeirydd ar y 12fed Mehefin a chynigiwyd Tyglyn Aeron. Y Clerc i wneud y trefniadau.

16. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mehefin 9fed yn Neuadd Felinfach